


GROW YOUR OWN POTATOES



Adnabod Tatws

Gwers 9: Dyddiadau yn hanes y daten

Bydd y plant yn:

- Dysgu am ddyddiadau arwyddocaol yn hanes y daten
Cyn y sesiwn, gwnewch gopi mwy o faint o **Daflen Waith 14 Dyddiadau yn hanes y daten**, a thorri'r dyddiadau'n stribedi ar wahân. Glynwch y rhain ar wal neu fwrdd gan gymysgu'r drefn.

Cyflwyniad

Esboniwch i'r plant eich bod wedi arddangos dyddiadau pan ddigwyddodd rhywbeth yn hanes y daten. Darllenwch y dyddiadau a'r wybodaeth gyda'r plant.

Trafodwch ystyr pob un o'r digwyddiadau.

Rhowch y dyddiadau yn eu trefn ar hyd y bwrdd neu'r wal.

Gofynnwch i'r plant i nodi ble fyddai'r flwyddyn y cawson nhw eu geni'n mynd, ac unrhyw flynyddoedd eraill arwyddocaol i'r dosbarth e.e. dyddiadau a astudiwyd mewn gwersi eraill, dyddiadau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu bobl enwog, dyddiadau sy'n bwysig yn eich rhanbarth neu'ch gwlad chi.

Tasg

5 – 7 oed

Trefnwch y plant yn grwpiau bach a gofynnwch i bob grŵp i greu llun mawr sy'n dangos un o'r digwyddiadau. Mae'n bosib y byddwch am ganfod ac arddangos ambell i ddelwedd i helpu'r plant gyda'u syniadau. Gosodwch y delweddau yn eu trefn gyda'r dosbarth, a'u hongian fel arddangosfa.

7 – 11 oed

Gofynnwch i'r plant i wneud ymchwil i ddod o hyd i ddigwyddiadau eraill arwyddocaol yn hanes y daten.

Gall y plant ddefnyddio llyfrau neu'r rhyngwyd.

Gallent gofnodi'u canfyddiadau gan ddefnyddio cyfrwng o'u dewis nhw, e.e. TGCh, defnyddiau celf.

Fel dosbarth, crëwch linell amser o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â thatws - er enghraifft, y newyn tatws yn Yr Iwerddon.

Neu, gallai'r plant wneud mwy o ymchwil i fanylion y digwyddiadau a roddwyd.

Crynodeb

Gofynnwch i'r plant i rannu'u gwaith.

Awgrymiadau...

- Cynnal ymchwil i ganfod pa ddysglau tatws a fwytawyd yn y gorffennol e.e. Oes Fictoria, Yr Ail Ryfel Byd
- Darganfod mwy am un o'r digwyddiadau a chael y plant i'w gyflwyno ar ffurf drama.

